## Cynllun Twf Cwestiynau a Ofynnir yn Aml - Newid Hinsawdd

**A yw'r papur hwn ynghylch cytuno ar safbwynt rhanbarthol ar newid hinsawdd?**

Na, mae'r papur hwn ynghylch cytuno ar safbwynt ar gyfer cyflawni prosiectau'r Cynllun Twf yn unig.

**Beth ydym yn ceisio ei gyflawni?**

Rydym yn ceisio cyflawni'r datrysiad fforddiadwy gorau ar gyfer pob prosiect yn nhermau lleihau allyriadau ac effeithiau ar fioamrywiaeth, i gefnogi ymdrechion cenedlaethol a byd-eang i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol. Yn syml, rydym am i'n prosiectau gyflawni'r asedau neu'r adeiladau mwyaf effeithlon o ran ynni â phosib, i leihau ôl-troed carbon adeiladwaith a chael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth.

**Beth yw carbon gweithredol?**

Carbon gweithredol yw'r swm o garbon deuocsid a gaiff ei allyrru yn ystod cyfnod gweithredol neu mewn defnydd adeilad neu ased. Er enghraifft, goleuo, gwresogi a chynnal a chadw.

Mae adeiladau gweithredol sero net yn effeithlon iawn o ran ynni gyda'r holl ynni sy'n weddill o ffynonellau adnewyddadwy ar y safle a/neu oddi ar y safle.

**Beth yw carbon corfforedig?**

Carbon corfforedig yw'r term sy'n cynnwys yr holl garbon a gaiff ei allyrru yn ystod oes adeilad neu ased. Yn ogystal â charbon gweithredol, mae hyn yn cynnwys allyriadau o ddarganfod a phrosesu deunyddiau, trafnidiaeth ac adeiladu ynghyd ag allyriadau a gynhyrchir o ddymchwel a gwastraff ar ddiwedd oes.

**Beth yw enillion net bioamrywiaeth?**

Mae Enillion Net Bioamrywiaeth yn "ddull o ddatblygu sy'n gadael bioamrywiaeth mewn cyflwr gwell nag oedd cyn hynny." Wrth gymhwyso egwyddorion enillion net bioamrywiaeth, anogir datblygwyr i ddwyn cynlluniau ymlaen sy'n darparu cynnydd cyffredinol mewn nodweddion ecolegol a chynefin naturiol ar y safle, mewn safleoedd gerllaw neu drwy 'offsets' (h.y. talu i wella bioamrywiaeth yn rhywle arall).

**Beth yw budd net i fioamrywiaeth?**

Golyga hyn yr un peth ag enillion net bioamrywiaeth, ond dyma'r term a ddefnyddir yng Nghymru.

**Pam ydym ni'n ceisio lleihau allyriadau a chynyddu bioamrywiaeth?**

Wrth i lefelau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydyr eraill gynyddu, caiff mwy o wres ei "drapio" yn atmosffer y ddaear ac mae tymereddau byd-eang yn cynyddu. Mae'r 'cynhesu byd-eang' yma yn achosi newidiadau sylweddol yn amseriad a hyd y tymhorau ynghyd ag amlder tywydd eithafol - llifogydd, sychder, corwyntoedd a thanau gwyllt. Bydd effeithiau newid hinsawdd ar y Gogledd yn cynnwys cynnydd yn lefelau'r môr ac effeithiau ar amaethyddiaeth a seilwaith yn sgil cynnydd mewn

tywydd eithafol. Mae'n debygol y bydd cymunedau sydd â bioamrywiaeth gadarn fod yn fwy abl i addasu i newid hinsawdd ac amrywioldeb hinsawdd na chymunedau dirywiedig.

**Beth fydd yr effaith ar brosiectau?**

Mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Er bod goblygiadau posib yn nhermau cost a sgôp, mae cyfleoedd sylweddol hefyd. Cydnabyddir bod prosiectau ar gamau gwahanol yn eu datblygiad. Bydd prosiectau sydd yng nghamau cynnar eu datblygiad yn medru gwreiddio'r datganiad sefyllfa yn nyluniad a datblygiad y cynigion hynny. Mae'n bosib na fydd prosiectau eraill, mwy aeddfed, yn medru bodloni'r holl ddyheadau heb gost ychwanegol sylweddol. Yn yr achosion hyn, bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arianwyr prosiectau i gyflawni'r datrysiad fforddiadwy gorau ar gyfer y prosiect.

**Sut fydd y Bwrdd Uchelgais yn ystyried y datganiad sefyllfa hwn wrth wneud penderfyniadau?**

Bydd y Cyfarwyddwr Portffolio yn gweithio gydag arbenigwyr allanol i roi'r prosesau angenrheidiol yn eu lle i danategu'r datganiad sefyllfa hwn. Bydd aelodau'r Bwrdd Uchelgais yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad deallus ar achosion busnes prosiectau wedi ystyried effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y prosiectau ar y Gogledd.